



## DYRCHAFIAD ACADEMAIDD

### CYFARWYDDIADAU LLENWI'R FFURFLEN GAIS 2021/22

#### Fformat

Rhaid cyflwyno ceisiadau trwy ebost i [academarpromotions@caerdydd.ac.uk](mailto:academarpromotions@caerdydd.ac.uk) erbyn 12:00 (h.y. hanner dydd) ar 10 Ionawr 2022 yn unol â'r canllawiau canlynol.

Gall eich cais gynnwys hyd at dri atodiad:

1. Ffurflen gais
2. Tystiolaeth o addysgu atodol (dewisol)
3. Tystiolaeth o waith 'sydd yn y wasg' (os yw'n berthnasol)

Dylai ffurflenni cais gael eu cyflwyno mewn pecyn prosesu geiriau (e.e. Microsoft Word), ac ni ddylent fod ar fformat PDF. Mae hyn er mwyn eich galluogi i newid eich cais os gofynnir am hyn ac er mwyn gwirio terfynau geiriau. Dylid defnyddio ffont Arial 12 drwy'r cais er mwyn iddo fod mor ddarllenadwy â phosibl.

Peidiwch â newid fformat y ffurflen gais. Gallwch ychwanegu rhesi ychwanegol at adrannau, ond ni chewch newid y strwythur (e.e. ychwanegu, diwygio, neu dynnu blychau neu rannau). Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n gyson ac yn gryno a bod pob ymgeisydd yn cael cyfle cyfartal i gyflwyno eu hachos.

#### Adran 1 – Manylion Personol

Rhowch eich manylion personol fel a ganlyn.

The screenshot shows the CoreHR Employee Dashboard. On the left is a navigation menu with 'Employee Dashboard' selected. The main area contains three widgets: 'My Appointments' (a table with one row showing FTE '1' and a red '2'), 'Important Dates' (two dates), and 'Length of Service' (three rows of data). A red '1' is next to the 'Employee Dashboard' menu item.

Rhif Adnabod y Gweithiwr

Eich rhif adnabod gweithiwr yw'r rhif wyth digid sydd yn [CoreHR](#) ar ochr chwith uchaf y sgrin (gweler y sgrinlun).

Dyddiad penodi i'r rôl bresennol

Nodwch y dyddiad y cawsoch eich penodi / dyrchafu i'ch rôl bresennol.

Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf (h.y. dyddiad cau'r cais) neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol.

Yn bennaf, gallwch ddod o hyd i hwn yn [CoreHR](#) yn yr adran Fy Apwyntiadau (gweler y sgrinlun uchod). Ar gyfer Darlithwyr sydd wedi cwblhau cyfnod prawf tair blynedd, dyma ddyddiad eu penodiad cychwynnol fel Darlithydd, nid dyddiad cwblhau'r cyfnod prawf. Cysylltwch ag [academatromotions@caerdydd.ac.uk](mailto:academatromotions@caerdydd.ac.uk) i gael cyngor os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y dyddiad hwn.

Pan fyddwch wedi cael sawl rôl gyfwerth heb doriad mewn gwasanaeth (ee dwy rôl Darlithydd yn olynol) byddai'r dyddiad hwn o'ch apwyntiad cychwynnol yn eich rôl gyntaf.

CALL (cyfwerth ag amser llawn) Nodwch eich CALL (cyfwerth ag amser llawn). CALL yw'r gyfran oriau ar eich cytundeb o'i gymharu ag oriau amser llawn. Gallwch ddod o hyd i'ch oriau cyfwerth ag amser llawn yn [CoreHR](#) yn yr adran Fy Apwyntiadau (gweler y sgrinlun uchod).

## Adran 7 - Addysgu

Rhowch fanylion am eich cyfraniad at addysgu os yn berthnasol).


Oriau cyswllt bob blwyddyn Cyfanswm yr oriau cyswllt bob blwyddyn sy'n berthnasol i'ch ymrwymadau addysgu.

Sgôr gwerthuso'r modiwl (h.y. boddhad cyffredinol) (lle bo'n berthnasol) Sgôr gwerthuso'r modiwl (h.y. boddhad cyffredinol) (lle bo'n berthnasol) Mae sgoriau gwerthuso modiwlau ar gael ar y [rhaglen Gwerthuso Modiwlau](#).

1. Mewngofnodwch gan ddefnyddio'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair arferol ar gyfer y rhwydwaith.
2. Dewiswch y flwyddyn o'r gwymplen yn y gornel uchaf ar y dde. Y flwyddyn academaidd gyfredol sydd i'w gweld yn awtomatig.
3. Dewiswch y modiwl perthnasol a chlicio **View**. Bydd y sgôr boddhad cyffredinol ar waelod y tab **Agreed %** (gweler y sgrinlun isod).

Cysylltwch â gweinyddwr eich Ysgol i gael unrhyw fodiwlau nad ydynt ar gael trwy'r rhaglen.

Dim ond sgôr gwerthuso'r modiwl sydd i'w nodi yn yr adran hon. Dylech gynnwys unrhyw naratif ychwanegol yn adrannau 12 neu 13 (Sail y cais).



## Adran 8 – Rolau arwain, rheoli ac addysgu academaidd/gweinyddol sy'n ymwneud ag ymchwil

**Prif ddyletswyddau** Disgrifiwch brif ddyletswyddau'r rôl. Dylai hwn fod yn ddisgrifiad byr, ffeithiol (e.e. pwyntiau bwled). Dylech gynnwys unrhyw naratif ychwanegol ynghylch eich cyflawniadau yn y rolau hyn yn adrannau 12, 13 neu 14.

## Adran 9 – Cyhoeddiadau ac allbynnau ysgolheigaidd

Rhestrwch hyd at bum cyhoeddiad a / neu allbwn ysgolheigaidd sy'n rhoi'r enghraifft orau o safon eich gwaith (os yw'n berthnasol). Gall y rhain gynnwys gwaith 'sydd yn y wasg'. Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol. Dylech gynnwys URL i'r allbynnau hyn ar [ORCA](#) neu storfa mynediad agored sy'n gyfwerth (os yn gymwys).

**Cyfeirnod / manylion allweddol** Y geirda / dyfyniad ar gyfer pob cyhoeddiad gan ddefnyddio dull cyfeirio addas. Dim ond y dyfyniad ddylai gael ei gynnwys. Dylech gynnwys unrhyw naratif ychwanegol ynghylch yr allbynnau hyn yn adrannau 12 neu 13.

**% y cyfraniad** Amcangyfrifwch ganran eich cyfraniad personol i bob cyhoeddiad/allbwn.

**Dyfyniadau** Nodwch nifer y dyfyniadau ar gyfer pob cyhoeddiad. Mae data dyfynnu ar gael gan ffynonellau gan gynnwys Scopus, Web of Science neu Google Scholar. Mae ein ystorfa sefydliadol, ORCA,

hefyd yn darparu cyfrifiadau cyfeirio, lawr-lwythiadau ac altmetregau eraill.  
Mae arweiniad pellach ynghylch dyfyniadau i'w gael ar fewnwyd y staff.

<https://intranet.caerdydd.ac.uk/staff/research-support/equipment-and-resources/citations-and-other-bibliometric-data>

A ninnau wedi llofnodi Datganiad San Francisco ynghylch Aseu Ymchwil (DORA), byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o ddangosyddion metrig a meintiol ymchwil. Nid yw'r Brifysgol yn defnyddio dulliau mesur sy'n seiliedig ar gyfnodolion (e.e. ffactorau effaith cyfnodolion) fel mesurau dirprwyol o ansawdd erthyglau ymchwil unigol wrth asesu cyfraniadau ymchwilydd unigol wrth wneud cais am ddyrchafiad. Peidiwch â chynnwys metrigau sy'n seiliedig ar gyfnodolion yn eich cais.

Gallwch ddefnyddio data dyfynnu fel gwybodaeth ychwanegol am arwyddocâd academiaidd allbynnau. Adolygu gan gymheiriaid fydd y prif fodd o asesu allbynnau. Cydnabyddir arwyddocâd allbynnau y tu hwnt i'r byd academiaidd lle bynnag y bo hynny'n briodol. Asesir allbynnau ar sail gyfartal, os oes data dyfynnu ar gael ai peidio.

Sgôr

Graddiwch bob cyhoeddiad, yn ôl eich asesiad chi o'u gwerth. Gweler y tabl isod i weld canllawiau ar raddio cyhoeddiadau.

Gradd	Disgrifiad
4*	<p>Gwaith sy'n ychwanegu'n sylweddol at wybodaeth am y maes a dealltwriaeth gysyniadol ohono, sy'n cyflwyno ffordd newydd o feddwl am bwnc, neu sy'n nodedig neu'n drawsffurfiadol, ac sydd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar faes academiaidd neu gymwysiadau ymarferol neu sy'n debygol o gael dylanwad o'r fath.</p> <p>Yn arwain ar lefel fyd-eang: yn arddangos y safonau uchaf posibl o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd.</p>
3*	<p>Gwaith o safon ryngwladol sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r maes, gan gyfrannu gwybodaeth, syniadau a thechnegau pwysig sy'n debygol o gael dylanwad parhaol, ond nad ydynt o reidrwydd yn drawsffurfiadol nac yn debygol o arwain at gysyniadau neu syniadau newydd yn eu hanfod.</p> <p>Yn rhagorol ar lefel ryngwladol: yn arddangos safonau rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd.</p>

2*	<p>Gwaith sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ei faes, gan ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a/ neu'n ymwneud â datblygiadau cynyddol, a allai gynnwys gwybodaeth newydd sy'n cydymffurfio â syniadau a pharadeimau presennol, ac allai lywio gwaith dilynol o bosibl.</p> <p>Cydnabyddiaeth ryngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd.</p>
1*	<p>Gwaith sy'n gwneud cyfraniad i'w faes.</p> <p>Cydnabyddiaeth genedlaethol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd.</p>
0* Ysgolheictod sy'n gysylltiedig ag ymchwil	<p>Gwaith na chaiff ei ddsbarthu'n ymchwil ar gyfer y REF ond sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgareddau academaidd neu ymchwil. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwaith sy'n cynnwys allbynnau sy'n lledaenu canfyddiadau ymchwilwyr eraill, heb gyfraniad sylweddol at wybodaeth</li> <li>• gwर्सlyfrau a gweithgarwch ysgolheigaidd arall</li> <li>• erthyglau adolygu safonol neu benodau mewn gwर्सlyfrau sy'n arolygu gwaith a gyhoeddwyd yn flaenorol heb gyfraniad arwyddocaol, newydd, deallusol</li> <li>• erthyglau golygyddol a phapurau trafod</li> <li>• crynodebau (gyda chanolwyr neu fel arall).</li> </ul>
Ysgolheictod ar ffurf ymchwil	<p>Ysgolheictod a ddiffinnir fel ymchwil ac y gellir ei dosbarthu'n 4*-1* fel y nodir uchod.</p> <p>Creu, datblygu a chynnal seilwaith deallusol pynciau a disgyblaethau, ar ffurfiau megis geiriaduron, argraffiadau ysgolheigaidd, catalogau a chyfraniadau at gronfeydd data ymchwil pwysig, neu gasgliadau eraill o wybodaeth.</p>
Ysgolheictod sy'n gysylltiedig ag addysgu	<p>Cyfraniadau sylweddol at ddealltwriaeth o addysgeg y maes pwnc/ ymarfer proffesiynol, ysgolheictod sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu ac sy'n cynnwys:</p> <p>Cymhwyso'r wybodaeth fwyaf cyfredol am ddisgyblaeth neu arbenigedd proffesiynol neu weithgareddau ac ymarfer ehangach, sy'n cael ei chyfleu mewn ffyrdd a ddilysir gan gymheiriaid ac sy'n dylanwadu ar eraill y tu hwnt i'r sefydliad.</p> <p>Gellir dosbarthu'r gwaith hwn yn 4*-1* fel y nodir uchod.</p>

Cyhoeddwyd - Rhestrwch yr holl gyhoeddiadau eraill a/neu allbynnau ysgolheigaidd. Dylid rhestru'r rhain mewn trefn gronolegol am yn ôl (h.y. y diweddaraf yn gyntaf) o dan is-benawdau priodol megis yr eitemau y manylir yn eu cylch yn [ORCA](#).

Gellir copïo a phastio eich gwaith cyhoeddedig o adran Cyhoeddiadau eich proffil staff ar-lein. Ar gyfer allbynnau a restrir yn ORCA, caiff adran Cyhoeddiadau eich proffil staff ei chynhyrchu'n awtomatig o dan is-benawdau priodol. Dylid ychwanegu allbynnau sydd heb eu rhestru mewn ORCA â llaw.

Rhowch 'X' ger yr allbynnau hynny ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol.

### **Adran 10 - Cyllid allanol**

Rhowch fanylion am eich ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus am gyllid allanol (os yw'n berthnasol).

Y cyfanswm llwyddiannus	Cyfanswm gwerth yr arian a ddyfarnwyd. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr y dyfarnwyd arian iddynt mewn arian cyfred heblaw punnoedd Sterling, am restru'r rhain fesul eitem mewn is-gyfansymiau ar wahân ar gyfer pob math o arian cyfred – neu roi gwerth Sterling – gan fanylu ynghylch y gyfradd gyfnewid briodol.
-------------------------	---

### **Adran 11 - Goruchwylio**

Rhowch fanylion eich dyletswyddau goruchwylio myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a/ neu oruchwylio ymchwilwyr/ myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (os yw'n berthnasol). Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol.

Gradd	Enw'r rhaglen sy'n berthnasol i'ch rôl oruchwylio.
Rôl (e.e. Goruchwyliwr/Cyd-oruchwyliwr)	Eich rôl oruchwylio (e.e. Goruchwyliwr / cyd-oruchwyliwr).
Statws (e.e. dyfarnwyd, cyflwynwyd, ar y gweill)	Statws y rôl oruchwylio (e.e. dyfarnwyd, cyflwynwyd, ar y gweill).

## **Adran 12 - Sail y cais (honiad o ragoriaeth)**

Rhowch ddatganiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos **rhagoriaeth** mewn perthynas â'r meincnodau ar gyfer y maes a nodwyd fel sail ar gyfer eich cais yn adran 1. Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol. (Hyd at 1,000 o eiriau)

Ar gyfer staff sydd wedi'u cyflogi ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ymchwil, nodwch naill ai Ymchwil, Addysgu neu Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol. Ar gyfer staff ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ysgolheictod, nodwch naill ai Ysgolheictod, Addysgu neu Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol. Ar gyfer staff sydd wedi'u cyflogi ar y llwybr gyrfa Ymchwil, Ymchwil fydd hwn.

Nodwch nifer y geiriau a ddefnyddir lle cânt eu dangos, gan gynnwys yr holl is-benawdau, troednodiadau, ac ati. Peidiwch â chynnwys delweddau neu elfennau graffig eraill (ee siartiau, sgrinluniau). Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle cyfartal i gyflwyno ei achos o fewn y terfyn geiriau.

## **Adran 13 - Sail y cais (honiad o allu ac effeithiolrwydd)**

Rhowch ddatganiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos **gallu ac effeithiolrwydd** mewn perthynas â'r meincnodau ar gyfer y maes a nodwyd fel sail ar gyfer eich cais yn adran 1. Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol. (Hyd at 1,000 o eiriau)

Er enghraifft, ar gyfer staff a gyflogir ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ymchwil sy'n hawlio rhagoriaeth ym maes Ymchwil, dylai'r adran hon roi sylw i feysydd Addysgu ac Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol. Ar gyfer staff a gyflogir ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ysgolheictod sy'n hawlio rhagoriaeth ym maes Addysgu, dylai'r adran hon roi sylw i feysydd Ysgolheictod ac Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol. Ar gyfer staff sydd wedi'u cyflogi ar y llwybr gyrfa Ymchwil, Addysgu ac Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol fydd hwnnw.

Nodwch nifer y geiriau a ddefnyddir lle cânt eu dangos, gan gynnwys yr holl is-benawdau, troednodiadau, ac ati. Peidiwch â chynnwys delweddau neu elfennau graffig eraill (ee siartiau, sgrinluniau). Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle cyfartal i gyflwyno ei achos o fewn y terfyn geiriau.

## **Adran 14 - Colegoldeb a Dinasyddiaeth y Brifysgol**



Rhowch ddatganiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch eich cyfraniad at Golegoldeb a Dinasyddiaeth y Brifysgol. (uchafswm o 500 gair) Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol. (Hyd at 500 gair)

Gall colegoldeb a dinasyddiaeth y Brifysgol fod ar sawl ffurf ac mae'n cynnwys:

- Ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr Ysgol, y Coleg a/neu'r Brifysgol.
- Gwasanaethu ar bwyllgorau, rhwydweithiau polisi, gweithgorau, paneli, ac ati, yr Ysgol, y Coleg a/neu'r Brifysgol.
- Cyfrannu at gymuned gynhwysol drwy hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Cefnogi datblygiad gyrfa cydweithwyr, gan gynnwys mentora, cefnogi, adolygiad cymheiriaid a phartneriaethau perthnasol, yn enwedig mewn cysylltiad â staff ar ddechrau eu gyrfa.
- Gweithgareddau ymgysylltu gwirfoddol neu ddinesig a gefnogir gan y Brifysgol (e.e. mentrau cymunedol Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd).
- Camau i liniaru effaith Coronavirus (COVID-19) (e.e. aelodaeth o grwpiau cynllunio wrth gefn, cyfraniad at wasanaeth profi Coronavirus y Brifysgol).

Nodwch nifer y geiriau a ddefnyddir lle cânt eu dangos, gan gynnwys yr holl is-benawdau, troednodiaid, ac ati. Peidiwch â chynnwys delweddau neu elfennau graffig eraill (ee siartiau, sgrinluniau). Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle cyfartal i gyflwyno ei achos o fewn y terfyn geiriau.

## **Adran 15 - Dyfarnwr**

Rhowch fanylion un canolwr a chrynodeb o'r rhesymeg dros eich dewis.

Dylai'r canolwyr fod yn athrawon, neu o statws athrawol, sy'n gyfarwydd â'r safonau cyffredinol ar gyfer dyrchafu ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir dewis aseswyr / canolwyr o fath arall o sefydliad. Ni ddylai aseswyr / canolwyr fod yn gyflogedig gan Brifysgol Caerdydd ar hyn o bryd. Gall canolwyr gynnwys, ymhlith rhai eraill, cyd-ddeiliaid grant, cyd-awduron, goruchwylwyr a chydweithredwyr academiaidd.

Gall dyfarnwyr gynnwys Athrawon emeritws / wedi ymddeol lle credwch eu bod yn ymgysylltu'n ddigonol â'r datblygiadau diweddaraf yn eich disgyblaeth i wneud sylwadau awdurdodol ar eich cyfraniad yn y maes.

Dylech gymryd gofal i sicrhau bod manylion y canolwr yn gywir gan y bydd y rhain yn cael eu defnyddio i gysylltu â'ch canolwr os bydd eich cais yn symud ymlaen i'r cam hwn. Efallai y bydd manylion anghywir yn arwain at oedi'ch cais.

## **Adran 16 - Tystiolaeth addysgu ategol**

Gellir cyflwyno hyd at 10 tudalen A4 o ddogfennau ategol (e.e. adborth myfyrwyr, adolygiad o ddysgu gan gymheiriaid) i gyd-fynd â'r dystiolaeth yn y ffurflen gais sy'n ymwneud â meincnodau addysgu. Dylid cyflwyno'r dystiolaeth mewn ffeil PDF neu Word ar wahân. Dylai hyn gael ei gyfyngu i'r dystiolaeth ddogfennol bresennol. Ni ddylai gynnwys naratif ychwanegol y dylid ei chynnwys yn adrannau 12 neu 13 eich cais.

Cyflwynwch eich tystiolaeth addysgu atodol mewn un ffeil PDF neu Word ar wahân, gan gyflwyno'r holl ddogfennau yn ôl eu maint gwreiddiol lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r holl destun fod yn hawdd ei ddarllen wrth edrych ar y ddogfen mewn modd arferol (h.y. yr hyn sy'n cyfateb i Arial 12pt). Gall lleihau delweddau neu sganiau i ganiatáu 2-y-dudalen (neu fwy) arwain at ddychwelyd eich cais atoch i'w newid. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael cyfle cyfartal i gyflwyno eu hachos o fewn y terfyn tudalen a ddarperir, yn ogystal ag er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau'n glir ac yn ddarllenadwy i adolygwyr.

Nid yw'n ofynnol i chi roi tystiolaeth ddogfennol ar gyfer cymwysterau, dyfarniadau neu wahoddiadau i gynadleddau ac ati.

## **Adran 17 - Datganiad**

Ticiwch y blwch i gadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn eich cais yn adlewyrchiad gwir a theg o'ch gweithgareddau a'ch cyflawniadau. Gall peidio â rhoi adlewyrchiad cywir a theg o'ch gweithgareddau a'ch cyflawniadau arwain at wrthod eich cais.